

Llydandroed llwyd, Morfa Madryn, Hydref 2ail, 2014

Chwyrlligwgan o aderyn yn dal pryfetach o arwyneb y dŵr.

Alun Williams

Nid hwn yw'r llydandroed cyntaf i addurno tudalennau'r Bwletin. Dyma'r gweddill:

Bwletin 70: Hen ysgrif papur newydd air am air o 1899 am y llydandroed...Y PHALAROPE. "Drwg genyf ddarvoud i mi yn fy ysgrif frysiog ar nodweddion y Phalarope esgeuloso rhoddi yr enw Cymraeg wrth yr hwn yr adnabyddir yr aderyn uchod, sef yw hyny, Pibydd Llwyd Llydandroed".

Bwletin 9: "Yn y gwyntoedd deheuol cryf 'na dydd Mercher a lau 11 Medi 2008 daeth tomen o adar llydandroed llwyd tuag atom o'r lwerydd."

Bwletin 14: "Corff llydandroed llwyd ar draeth Cricieth 24 Ionawr 2009. Roedd tywydd caled ddechrau'r flwyddyn wedi hen beidio".

Bwletin 70: Llydandroed llwyd yn ardal Gronant, Hydref 28, 2013. Cyfeirnod grid: SJ 088843

Gwedd arall ar gydweithio amaethyddol

Erbyn hyn mae'r cydweithio anghenrheidiol ar ffermydd yr oes a fu yn ddihareb ac yn rhamant. Dyma wedd arall ar hyn, sef cydweithio rhwng helwyr cwningod a medelwyr cnydau yn y Norfolk wledig:

*August 22- Saturday the 20th was a fine, indeed a perfect, harvest day....The sight of the men [medelwyr], one following the other across the field in a jagged line as they cut down the ripe corn with wide sweeps of the scythe, made a fine picture of effort strenuous and combined [sic]. The place is pretty too, with the windmill in the background, and the heat haze softened the scene, keeping it in tone and making it restful. **One of the features of these mowings is the almost invariable presence of a man with a dog - someone in the village who is fond of a bit of sport. As the mowers approach the end of a stretch a bunny or two will bolt, and be swept up by the dog before it can win the shelter of the hedge. The rabbits thus obtained are, I believe, divided among all concerned, upon some fixed system, but what it is I do not know. This morning the machine was cutting wheat on the top portion of the pit-hole field. Here the sparrows have done great damage; indeed quite enough grain for a seeding is lying on the land, picked from the ears and cast away by these mischievous little wretches. In this field there was a mighty rabbit hunt, for at the end of it lies the little Hollow Hills plantation, also the old sandpit where in its midst is a great harbour for them. Several men and dogs appeared on the scene, and as the area of standing corn was narrowed to a little patch the rabbits began to bolt from it free. To and fro ran the men, shouting, while the scared coneys [cwningod], after various vain efforts to hide themselves, made a wild attempt to escape, the cur dogs leaping high into the air to try to catch a glimpse of them as they scuttled through the fallen corn. With many turns and doubles they coursed the poor bunnies, uttering short sharp yaps of excitement and, gripping them at last with their white teeth, shook and bit them till they were dead. In all about a score of rabbits were killed, but quite as many more gained the shelter of the hedges and plantation.....***

H Rider Haggard (gweler [Bwletin 80](#) am lun o'r helfa yn y cnwd)

Roedd cwningod yn dipyn o bla, ac yn gnwd o gig, hyd yn oed yn 1898. Dyma ddywedodd yr hen gipar Tom Jones: "Dim yn newydd I mi yma - mi fyddai hyn yn digwydd yn y pen yma o'r byd hefyd pan oedd ffarmwrs yn tyfu cnyda te. Ond llafna ifanc fyddai wrthi ffordd hyn neu Ben Llŷn yn amlach na rhai mewn oed".

Ffwng newydd i Gymru



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darganfod math o ffyngau prin nad wyddys amdano ynghynt yng Nghymru. Mae'r arolygon manwl o fawndiroedd yng Nghymru yn aml yn datgelu rhywogaethau prin ac anarferol, ac yn ystod un o'r arolygon hyn daeth y tîm o hyd i rywbeth [cyffrous iawn](#) – Coden Fwg y Ffeniau (*Bovista paludosa*). [coden fwg y gors yw'r enw a gynigir gan Grwp Safoni Enwau Ffwng Cymdeithas Edward Llwyd i'w gyhoeddi yn fuan]. Mae'r Arolwg Mawndir Cenedlaethol wedi bod yn edrych ar fanteision mawndiroedd o safon uchel i bobl, i'r economi ac i fywyd gwyllt. Mae'n gynefin pwysig ar gyfer natur, mae'n storio miliynau o alwyni o ddŵr sy'n helpu i leihau llifogydd ac mae'n storio carbon sy'n helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

Datganad i'r Wasg (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Gwenynen ddeildorrol



Gwenynen torri dail *Megachile* ond yn lle dail, petalau sydd wedi eu torri yma. Yn Nhegannedd, Waunfawr, oedd o wrthi ddiwedd mis Medi [2014] - yn hedfan at ei dwll ac yn cael cryn drafferth i lusgo'r petal i mewn iddo. Treulio rhan fwyaf o'r amser yn rowlio ar ei gefn!



Rhys Jones

Y cor-rosyn, oedd cyfagos, yw'r blodau oedd yn cymryd sylw'r gwenyn

*The group are all fairly similar superficially. It usually requires a specimen to be sure - it is probably most likely to be *Megachile willughbiella* or *M. centuncularis*. I've attached a [NHM note](#) about them.* **Oliver Prys-Jones**

Pabiau cochion



Rhai seramic, Tŵr Llundain, Medi 27. Gosodwyd 800,000 i goffhau can mlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. **Paula Williams**

Pommes d'amour



Un o'r enwau Ffrangeg ar y tomato yw *pomme d'amour* (afal cariad). Mi fydd yna rai yn mwynhau natur awgrymog y spesimen hwn!

Duncan Brown



Pa greadur?

Atebion trwy wefan Llén Natur cyn 15 Tachwedd. Yr ateb cywir cyntaf yn werth £10

Llun Alun Williams (Glascoed, Llanelyw, Medi 1af.)

Corbenwaig Porth Neigwl

Cerddais draeth Porth Neigwl y prynhawn yma 20/9/14. Gwelais filoedd o'r pysgod bach yma ar y tywod, pam fod cymaint yno tybed


Netta Pritchard



White bait [corbenwaig] fydden ni yn eu galw. Mae'r mecryll yn hoff iawn o'u bwyta. Felly tybiaf i'r rhain ddod gyda'r lan ac i haid o fecryll eu herlid ac yn eu dychryn. Bydd y whitebait yn neidio i bob cyfeiriad ac yn amlach na ffeidio yn disgyn ar y lan. Ni allant wedyn fynd yn ôl i'r dŵr. Taswn yno mi fyddem wedi cael helpa da a prydau blasus o whitebait mewn fymrun o fater a'u ffrïo yn y siosban chips.

Tom Jones

Gwenoliaid y bondo (*au nature!*)



...a recent observation made in Dumfries and Galloway. Last week I was on the Machar Peninsula, Galloway, Scotland. At the entrance to St Ninian's Cave [NX 422 359] I came across a small colony of House Martins nesting in a totally natural environment on a cliff face. The date was 17th September and the adults were still actively feeding the young. In comparison the swallows around my home in Trefdraeth had already gathered and I think began their migration back to Africa earlier in September. **Steve Roddick** Cyfrifodd Harry Thomas 20 o nythod ar y Gogarth Fach yn 1916 ([Bwletin 75](#)).

Llysiâu poen neu blodyn y dioddefaint



Mae gennyf blanhigyn Passion Flower. Mae'n tyfu ar wal y beudy ers rhai blynnyddoedd bellach ac eleni am y tro cyntaf mae ffrwythau arno. A yw 'r rhain yn fwytdawdy.

Netta Pritchard

Ffrwythau blodyn y dioddefaint - [ydy nhw yn fwytdawdy?](#) Mae'n ymddangos eu bod. A beth ydi'r ddedfryd ar eu blas Netta?

Rhegen y dwr ym Mhentir

Ffeindiais y rhegen ddŵr yma wedi marw yn 577761 wrth ymyl y lôn fawr, Pentir p'nawn ma [26 Medi 2014]. Dydw i erioed wedi gweld un yn y cyffiniau o'r blaen er gwn y gallen nhw fod yn gyfrin iawn.... aderyn perffaith cyfan yng ngogoniant ei holl liwiau

Sian Shakespear



Oes yna gynefin addas yn y cyffiniau, ynteu ai pashio drwodd oedd o? Gol.

A beth am [lun un fyw?](#)

PERYGL Yr Efwr Enfawr



Arwydd "*Danger Giant Hogweed*" o flaen tyfiant o'r efwr enfawr ger y gamlas yn Chinley, Ardal y Peak, 24 Medi 2014

Duncan Brown

Oes gennych brofiadau o beryglon yr efwr enfawr?

Uchelwydd ar gerddinen

Ar y 6 Hydref eleni ymwelais a Kentchurch yn Nhe Henfordd. Mae hon yn ardal dda i weld uchelwydd yn tyfu ar goed. Ym mynwent yr eglwys gwelais uchelwydd ar gerddinen. Ydy hyn yn anerferol i'w gweld ar y rhywogaeth yma?

John Lloyd Jones

Cyhoeddir Bwletin Llén Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027). Mae Prosiect Llén Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch á ni trwy llennatur.yahoo.co.uk

Diwrnod William Bulkeley 19 Medi 2014



Robin Grove-White, perchen Y Brynddu (cartref William Bulkeley a disgynydd iddo), yn cyflwyno'r diwrnod i bobol ifanc ysgolion Môn.

Manon Wilkinson a Rhodri Sion yn mynd trwy'i pethau ar lawnt Y Brynddu.....



.... ac yn yr ardd gaerog - lle y tyfai William Bulkeley nectarinau dwy garrif a hanner yn ôl

Yn eglwys Llanfechell bu rhan fwyaf o'r ddrama - eglwys a fynychai William Bulkeley (Wyn Bowen Harris yma) yn selog er iddo gwyno'n ddibaid am y ficer diflas!



Drs Sarah Davies a Cerys Jones (uchod) yn dangos pwysigrwydd hen ddyddiaduron i'r gynulleidfa..... a Sue Walton (chwith) yn esbonio rhai o'r ogoneddau a diflastod trawsgrifio hen lawysgrif William Bulkeley i sgrif y cyfrifiadur



<http://vimeo.com/wholepicture/bulkeley>

Y byrger du



neu gacenni y Brenin Alfred Mae'r ffwng hwn sy'n tyfu ar ganhennau coed ynn yn cael eu cyffelybu yn draddodiadol i gacenni llosg y Brenin Alfred. Stori gydag ergyd tebyg efallai sydd [yma](#)

O dramor

13 Medi 2014 Dwi wedi ymweld a Riyadh 6 gwaith ac wedi treulio tua 7 wythnos yno trwy gydol fy mywyd. Heddiw, [gwelais gwmwl](#) yn yr awyr am y tro cyntaf...

....a chawsom fymryn bach y law y diwrnod canlynol - anhygoel.

Gwyn Williams

Y Dagell goch fawr



Dyma ffwng gweddol fawr a thrawiadol yng Nghricieth. Mae Mirain (9 oed) yn y llun er mwyn rhoi syniad o faint y ffwng. 27 Medi 2014

Gwyn Williams

What a great photo! I can see why DB suggests that from the size, colour and the habitat on wood, that it "could" be Dryad's Saddle - Polyporus squamosus. [cyfrwy cennog]. However, I can't remember seeing such wavy brackets of this species before and from the photo there appear to be gills underneath as

opposed to the pores of the Polyporus. (which should also have caps patterned with brown scales, and flesh inside which is tough and white). [Tegyll oedd ganddo, nid croendyllau GW]. Assuming there are gills I would suggest [Gymnopilus junonius](#) [tagell goch fawr] which can have caps up to 30cms and grows on wood of various dead deciduous trees and occasionally on conifer [conwydd oedd hwn GW]. (Common hosts of Dryad's Saddle are Sycamore, Willow, Poplar, Ash). The stipes, (stems) of [G. junonius](#) should also have a ring or ring zone.

Debbie Evans

Chwydd dail eirin



Nifer o ddail y goeden eirin wedi cael eu effeithio. Ond y ffrwyth yn iawn hyd yn hyn . Medi 16 2014 Cynllwyd

Luned Meredith

The galls on the Plum leaves (Prunus domestica) are caused by a gall mite called [Eriophyes similis](#). I see them most commonly on Blackthorn leaves, (Prunus spinosa), and they are often red in colour on this host. The biggest concentration of

galls is usually on the leaf margins. The mites escape through narrow openings in the gall.

Debbie Evans

Wedi gweld yr union beth yma yn Mynytho hefyd. [Netta Pritchard](#)

[Gwefan dda yma](#) yn dangos chwyddiadau o bob math, ond heb ffeindio'r uchod yn eu plith eto! Gol.

Gweyll cyffredin




Llun: Alun Williams, 9 Medi 2014, Conwy

Sympetrum striolatum, un o weision neidr olaf i ymddangos pob blwyddyn. Dyma geiliog (coch) a iar (frown) yn [reidio tandem](#), sef y ceiliog yn cyffwrdd yr iar gerfydd ei gwar tra ei bod hithau wedyn yn dod a blaen ei "chynffon" ymlaen i dderbyn had y ceiliog o fôn ei abomen cyn wedyn dodwy ei hwyau yn y dwr.

[Lluniau rhyfeddol](#) o fursennod (sef teulu llai o was neidr)

Medi 2014: y sychaf ers dechrau cadw cofnodion



Dyma gofnodion John Jones, Pelcomb, Sir Benfro o lawiad misoedd Medi y ganrif hon. Efallai nad yw pob tywydd "eithafol" yn annerbyniol, ond tywydd eithafol

ydyw serch hynny. Hwn oedd y mis Medi ail-sychaf erioedd yma. Trwy ddwr a thán, [yr hinsawdd yn newid](#) o flaen ein llygaid.

Cranc ymledol o Cheina yn cyrraedd yr Alban

... perygl i eogaid? Ydych chi wedi sylwi ar hwn yng Nghymru Erthygl y Guardian [yma](#)

Nionod coch y Sionis

The fertilizer [ar gyfer nionod ardal Roscoff, Llydaw] is the seaweed raked up from the beaches, spread over the ground and ploughed in. The iodine from the seaweed gives the onions sold by the Johnnies their unique colour - a light rose colour. An old onion seller, Jean-Marie Roignant who worked in Caernarfon, Jersey and Perth, told me that seeds from anywhere in the world could be sown in the Johnnies countryside and when harvested the onion would always be the same reddish colour.

Gwyn Griffiths 2002 [The Last of the Onion Sellers](#) Gwasg Carreg Gwalch

Eira ar Enlli

Ionawr 1881: *Such snow as we have had has not been seen on the island for very many years. The whole island was covered in snow. Hurricane winds blew the snow all over creating drifts that were covered in thick ice. Dozens of birds fled the island and dozens more were blown off the cliffs. This is a terrible tempest.*

Ydyddiuron Lord Newborough o Ynys Enlli (www.rhiw.com)

Cliciwch [yma](#) i weld cofnodion eraill ar gyfer Ionawr 1881

Diolch am fewnbynnu rhain i'r Tywyddiadur (pw y bynnw naeth). Be mae Dyddiuron yr Arglwydd Niwbwrch i'w gweld tybed?